| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **9 Rhagfyr, 2014** |
| **PWNC** | **Gwe-ddarlledu** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno y wybodaeth ddiweddaraf** |
| **AWDUR** | **Geraint George**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

1. Mae System Gwe-ddarlledu y Cyngor bellach wedi ei osod ac ar 26 Tachwedd, cynhaliwyd sesiwn hyfforddi y gwahoddwyd pob aelod o'r Cyngor iddo. Roedd 41 yn bresennol yn cynnwys rhai aelodau o'r Pwyllgor Safonau.

2. Yn y sesiwn, esboniwyd y rhesymeg dros gyflwyno'r system, adnabuwyd rhai o'r risgiau sydd ynghlwm a'i weithredu a bu peth trafod am yr angen i'r Cyngor lunio canllawiau ar gyfer ymddwyn o dan y drefn a rhai posibiliadau eraill o ran newid trefniadau cyfarfodydd y Cyngor.

3. Roedd barn bendant am rai pethau:-

- Yr angen i gael canllaw cryno (pethau i'w gwneud a'u hosgoi) i'w rannu i bob aelod gyda'r aelodau etholedig eu hunain yn cymryd perchnogaeth o'r canllawiau hynny
- Yr angen am gymorth a hyfforddiant penodol i gadeiryddion pwyllgorau

4. Yn ogystal gwnaed rhai awgrymiadau eraill yn cynnwys:-

- Ymgynghori gyda'r cyhoedd ar y math o eitemau pwyllgor y byddent yn dymuno iddynt gael eu gwe-ddarlledu o fewn yr oriau sydd ar gael
- Addasu'r rheol sydd yn y Cyfansoddiad ar hyn o bryd ar y rheidrwydd i sefyll wrth siarad yn y Cyngor llawn
- Ystyriaeth ynglŷn ag adeiladu egwyl i mewn i gyfarfodydd pwyllgor hir er osgoi camargraff o aelodau yn gadael cyfarfodydd i nôl paneidiau
- Yr angen am bapur byr yn esbonio rhai o'r materion bach trefniadaethol mewn Cyfarfodydd pwyllgor a fyddai'n ddieithr i aelodau o'r cyhoedd sy'n gwylio

5. Atgoffir yr aelodau y byddwn yn dechrau gwe-ddarlledu o Ionawr ymlaen gan hysbysebu ymlaen llaw y cyfarfodydd a fydd yn cael eu gwe-ddarlledu

6. Gwahoddir unrhyw sylwadau pellach gan aelodau'r Pwyllgor a hefyd farn benodol ar y broses o lunio'r canllaw cryno.